



Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru

Sgrinio Babanod Newydd-anedig am Heintiau – Gwybodaeth i Rhieni!



Oes ydych yn amau bod un o'r rhain yn digwydd, neu os oes gennych bry-deron am unrhyw beth arall, rhowch wybod i'r nyr, bydwraig neu'r meddyg. Os nad yw eich babi yn mynd yn fwy sâl, gallaros gyda chi ar y ward. Gallwch newid, bwydo a gofalu am y babi fel arfer. Efallai bydd angen cymeryd y babi i ward arall i gael y driniaeth gwrthfotig, ond fe ddaw y babi yn ôl atoch yn syth.

Amser troi am adref

Cyn gynted ag y bydd y meddygon yn siwr nad oes haint ar eich babi, fe gaiff y driniaeth ei stopio. Efallai byddwn yn eich cynghori i aros am gyfnod ychwanegol ar y ward, ond fydd y rhan fwyaf o fabanod yn gallu mynd adref yn syth ar ôl stopio'r driniaeth.

Cofiwch gadw llygad barcud am yr arwyddion yn y rhestr uchod. Os ydych yn amau rhyw beth, cofiwch ofyn am gyngor meddygol am y camau posib nesaf. Gallwch gysylltu â'ch GP, ffonio NHS 111 neu mynd i'ch Adran Damwain ac Argyfwng leol.

Unrhyw Gwestiynau?

Mae croeso i chi ofyn unrhyw beth wrth ein tîm yma – y doctoriaid, bydwragedd neu nyrsys – mae pawb sydd yma i ofalu am eich babi chi.

Weddi' ddyunio a'i adolygu gan:

Drs. Celyn B Kenny, Nitin Goel, Maha Mansour,
Geraint Morris, Assim A Javaid, Prasad A

Parvathamma

Mae'r daflen hon ar gyfer rhieni babanod sydd angen arsylwad ychwanegol neu driniaeth am heintiad yn y dyddiau cynnar ar ol genedigaeth.

Pam Oes Peryg Ychwanegol i Fy Mabi i am Heintiad?

Gall rhai babanod fynd yn sâl ar ol genedigaeth oherwydd heintiad gan facteria. Yn ffodus, mae hwn yn ddigwyddiad anaml iawn (tua 1 ym mhob 2000 baban). Gall rhai pethau rhoi peryg uwch i fabanod gael heintiad, er enghraifft:

- Dyfroedd y fam yn torri mwy na 24 awr cyn y genedigaeth
- Y fam yn cario bacteriwn o'r enw Streptococcus Grwp B
- Heintiad yn y fam yr un pryd â'r genedigaeth
- Y babi yn cael ei eni/ei geni yn rhy gynnar (cyn 37 wythnos o feichiogrwydd)

Gall fod yn anodd rhagweld pa fabanod fydd yn cael heintiad a mynd yn sâl, ond fe fydd y bydwagedd, y nyrsis a'r meddygon sy'n gofalu amdanoch yn gallu penderfynu os fydd angen mwy o arsylwi ar eich babi am 24 awr, ac rhai weithiau bydd babis angen phrofion gwaed a thriniaeth gwrthfotig.

Beth sy'n digwydd os oes angen arsylwi ychwanegol?

Fe fydd eich babi chi yn cael arsylwad rheolaidd am 24 awr ar y ward gyda chi. Bydd y tîm bydwagedd yn monitro'r babi yn rheolaidd ac yn galw tîm meddygon y newyddanedig os ydynt yn bryderus. Os fydd eich babi yn aros yn iach, bydd yr arsylwi ychwanegol yn dod i ben. Ond os oes unrhyw arwydd o'r ffactorau yn y rhestr isod, bydd aelod o dîm meddygon y newyddanedig yn dod i weld y babi i benderfynu os oes angen prawf gwaed a thriniaeth gwrthfotig. Dyma rhai arwyddion o heintiad mewn aban newyddanedig: Lliw anarferol

- Trafferth anadlu
- Tymheredd yn rhy uchel neu isel
- Gorflinder neu'n llipa wrth cael ei dal/ei ddal
- Anhawnster bwydo
- Lliw anarferol

Dechrau triniaeth gwrthfotig

Os oes angen gwrthfotigau ar eich babi, bydd tiwb plastig bach (Cannula) yn cael ei basio i mewn i wythien yn llaw neu droed eich babi. Defnyddir hwn i rhoi'r driniaeth gwrthfotig fel pigiad. Mae'n well rhoi'r driniaeth yn y ffordd yma na rhoi meddyginiaeth yn y geg, oherwydd nad yw stumog babi yn gallu cymryd y feddyginiaeth i fewn i'r corff yn dda iawn mewn babanod ifanc



Gentamicin a Benzylpenicillin yw'r triniaethau gwrthfotig rydym fel arfer yn defnyddio. Ar yr un pryd â rhoi'r cannula mewn lle, cymerir samplau gwaed i brofi am haint. Os fydd eich babi yn aros yn iach, ac mae'r profion am heintiad yn negyddol, byddwn yn dod a'r driniaeth i ben ar ôl 36-48 awr. Fodd bynnag, os yw'r canlyniadau'n dangos arwyddion o haint, efallai bydd angen i'ch babi aros ar wrthfotigau, ac efallai bydd angen mwy o brofion i trio darganfod ble mae'r haint wedi dod. Fel arfer mae cwrs o trin-

Eich Cyfnod yn y Ward Newydd-anedig

Gan fydd eich babi yn aros gyda chi y rhan fwyaf o'r amser mae'n werth cadw mewn cof rhai o'r arwyddion fydd efallai yn golygi fod angen cymorth meddygol:

- Ymddygiad gwahanol, fel bod yn anniddig neu wedi blino gormod
- Diffyg diddordeb mewn bwydo, neu bwydo llai nag arfer
- Llawer o daflu i fyny
- Tymheredd yn is neu'n uwch na'r arfer
- Lliw gwelw neu anarferol
- Symudiadau anarferol, cyflym
- Y babi yn llipa
- Anadlu cyflym neu swnllyd